Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Aberteifi
**Stryd Napier**
**Aberteifi**
**Ceredigion**
**SA43 1EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Aberteifi yn nhref hanesyddol Aberteifi ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol sir Ceredigion. Mae 445 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 68 plentyn meithrin, ar y gofrestr, a chânt eu haddysgu mewn 16 dosbarth.

Mae'r ysgol wedi newid categori ieithyddol yn 2013, o fod yn ysgol gyda dwy ffrwd ieithyddol wahanol i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae un dosbarth yn parhau yn yr ysgol sy'n addysgu 16 o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn ddwyieithog, ac asesir y disgyblion hyn fel disgyblion Cymraeg ail iaith.

Mae tua 24% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a thua 31% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Tua 29% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dod o gefndir lleiafrif ethnig. Ychydig iawn o ddisgyblion hefyd sydd o dan ofal yr awdurdod lleol.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2015, yn dilyn chwe blynedd fel dirprwy yn yr ysgol. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Chwefror 2010.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â dysgu proffesiynol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Aberteifi yn 2016-2017 yw £3,323. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,440 a'r lleiafswm yw £3,123. Mae Ysgol Gynradd Aberteifi yn y 40fed safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn ystod eu hamser yno
- medrau llafar a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol
- medrau darllen ac ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn dda yn y ddwy iaith
- medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r disgyblion yn gadarn
- llais y disgybl yn datblygu'n eithriadol o dda ac yn effeithio'n sylweddol ar les disgyblion
- bron pob disgybl yn ymwybodol iawn o'u hawliau fel unigolion ar sail siarter hawliau plant y Cenhedloedd Unedig a sut i weithredu fel dinesydd byd-eang
- dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn gadarn iawn
- disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais a gofalgar
- cydweithio effeithiol iawn yn bodoli rhwng athrawon a'r staff cymorth dysgu sy'n llwyddo i ddarparu cefnogaeth gyfoethog i ddisgyblion bregus
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir iawn i hyrwyddo lles disgyblion a staff
- awyrgylch gynhaliol iawn yn bodoli, lle mae disgyblion yn teimlo'n hollol ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi
- y pennaeth yn adnabod pob disgybl yn dda iawn ac yn sicrhau bod gwaith yr ysgol yn datblygu unigolion hapus ac uchelgeisiol
- strwythurau rheoli o fewn yr ysgol yn gadarn iawn ac yn cefnogi'r staff i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol
- gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod ei chryfderau yn dda a'r rhan fwyaf o'r hyn sydd angen ei wella
- ganddi amrediad eang o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith buddiol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu yn effeithiol
- arweinwyr yn sicrhau atebolrwydd i bob aelod staff drwy sicrhau cyfleoedd arwain effeithiol i'r holl athrawon

- trefniadau rheoli perfformiad yn gosod targedau perthnasol sy’n ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau gwella’r ysgol ac anghenion datblygu personol y staff
- arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff i wireddu’r nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu’n estynedig yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod yr her yn diwallu anghenion pob disgybl ar draws yr ysgol, yn arbennig y mwy abl

A3 Dyfnhau dealltwriaeth y llywodraethwyr o’u rôl fel eu bod yn gallu gweithredu’n fwy effeithiol wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad

A4 Mireinio’r prosesau hunanarfarnu fel eu bod yn cynnwys barn rhieni, yn adnabod yr holl faterion i’w gwella ac yn sicrhau ffocws mwy penodol ar safonau disgyblion

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cynnydd gwerthfawr ac yn cyflawni'n dda, gan gynnwys y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn nodau'r gwersi. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol yn y Gymraeg ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn addas i oedolion gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig ac yn mynegi eu barn yn glir. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio'n annibynnol nac mewn sefyllfaoedd anffurfiol o amgylch yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn darllen yn ystyrlon ac yn newid goslef y llais yn effeithiol wrth ddarllen ar goedd. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o ddisgyblion strategaethau priodol er mwyn darganfod ystyr geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu llyfrau yn hyderus. Maent yn trafod cymeriadau a'r plot yn effeithiol gan fynegi eu rhesymau yn glir. Mae gan ddisgyblion mwy abl ymwybyddiaeth gadarn o arddull gwahanol awduron a sut maent yn creu effaith yn eu storïau. Mae uwch fedrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am fywyd awdur er mwyn ysgrifennu bywgraffiad.

Yn y dosbarth Derbyn, mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ysgrifennu'n rhydd yn yr ardal ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan sillafu geiriau yn unol â'u hoed a'u gallu. Yn gyffredinol, maent yn ysgrifennu'n gymwys mewn ystod addas o ffurfiau ysgrifennu ac yn datblygu'u medrau yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am Affrica. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir a diddorol gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi'n gywir yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n greadigol er mwyn gwneud eu gwaith yn ddiddorol i'r darllenydd. Enghraifft dda o hyn yw'r llythyr ffurfiol i gwyno am ansawdd y caffi newydd. Mae llawer yn defnyddio'u medrau ysgrifennu yn gymwys wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau llafar Cymraeg ail iaith llawer o ddisgyblion yn dda. Maent yn siarad yn weddol hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa yn gywir.

Maent yn darllen yn rhugl ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn frwdfrydig. Mae llawer yn ysgrifennu'n gymwys mewn ystod o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu sgript am chwaraeon.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae datblygiad mathemategol y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn iawn. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth honno yn fedrus i ffurf graff. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn adnabod lluosrifau yn gywir ac yn gallu eu didoli mewn diagram Venn. Mae llawer yn dechrau defnyddio eu strategaethau rhif i ddatrys problemau syml yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddatrys problemau yn cynnwys arian yn dilyn ymweliad â siopau lleol.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gadarn. Mae llawer yn defnyddio ystod o fedrau trin data yn drwyadl wrth gasglu gwybodaeth a'i chyflwyno mewn tablau, graffiau bar, llinell a thrawsnewidiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn meithrin medrau a strategaethau pen effeithiol. Mae hyn yn eu galluogi i ymdrin â datrys problemau yn fedrus, er enghraifft wrth ddarganfod cost y tocyn ar gyfer taith bws er mwyn cael gwerth gorau am arian. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Enghraifft o hyn yw'r gwaith yn trosi unedau imperial i fetrig wrth gyfrifo cyfyngiadau dogni yn y Ail Ryfel Byd.

Mae safonau'r disgyblion wrth ddefnyddio TGCh ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn wrth iddynt greu lluniau, er enghraifft wrth efelychu gwaith yr arlunydd Matisse. Gall rhan fwyaf y disgyblion greu llyfrau darllen electronig diddorol i gyd-fynd â'r thema Brasil. Mae'r rhan fwyaf yn creu graffiau bloc a bar a rhaglenni teganau neu ddelwedd sgrin yn llwyddiannus. Mae bron pob un yn gallu mewngofnodi i'r system gyfrifiadurol yn annibynnol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio rhaglenni prosesu wrth greu tudalen flaen papur newydd am chwedl Nant Gwrtheyrn. Mae llawer yn datblygu eu medrau i lunio a chanfod gwybodaeth o gronfeydd data wrth wneud gwaith am gyfandiroedd y byd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o sut i ddefnyddio taenlen i lunio graffiau i ddangos y gwahaniaeth rhwng tymheredd uchaf ac isaf Aberteifi. Mae llawer, erbyn diwedd Blwyddyn 6, yn dechrau datblygu eu medrau i fodelu wrth gyfrifo cost gwneud cacen penblwydd. Maent yn datblygu eu medrau wrth defnyddio fformiwlâu i ddadansoddi canlyniadau gemau rygbi y chwe gwlad. Mae llawer yn dechrau datblygu eu medrau codio yn bwrpasol.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn hyderus, gwybodus a gofalus wrth ymchwilio ar y we. Maent yn ymwybodol iawn o sut i gadw'n ddiogel wrth wneud hyn, a beth i'w wneud os bydd problem yn codi.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae tuedd cyffredinol i berfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliannau disgwyliedig a datblygiad mathemategol ar y deilliant uwch osod yr ysgol yn uwch na'r canolrif o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y deilliant uwch wedi amrywio mewn llythrennedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwyliedig yn y Gymraeg a Saesneg yn gyffredinol rhwng y 50% uwch neu'r 25% uchaf o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r perfformiad wedi amrywio mewn mathemateg a gwyddoniaeth rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mae'r perfformiad ar y lefelau uwch yn y Gymraeg a gwyddoniaeth hefyd yn amrywiol. Yn gyffredinol, mae'r perfformiad mewn Saesneg a mathemateg gan amlaf yn is na'r canolrif.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae merched yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol yn perfformio'n well na'r bechgyn o ran cyrraedd y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Yn ystod yr un cyfnod, mae merched yn perfformio'n llawer gwell na'r bechgyn o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch o ran Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2.

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim i'w weld yn is o ran safon na'u cyfoedion, a bellach, mae'r bwlch yn cau.

## Lles: Rhagorol

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod at bwy i droi i gael cyngor neu help. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn yn ystod y gwersi ac o amgylch yr ysgol ac maent yn gwrtais yn gyson. Maent yn dangos parch gwirioneddol at eu cyfoedion, oedolion cyfarwydd ac ymwelwyr. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn at les disgyblion.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion ac yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n annibynnol heb ormod o ymyrraeth gan oedolion ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus wrth gyfansoddi darn o gerddoriaeth i gyd-fynd â cherdd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl wrth ddatrys problemau wrth ddatblygu eu medrau codio.

Wrth werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion, mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth glir o ba mor dda maent yn llwyddo yn eu tasgau, a beth sydd angen iddynt ei wneud i'w wella. Maent bron i gyd yn ymwybodol o'u targedau ynglŷn â sut i wella eu gwaith ac wedi cymryd rhan gweithredol yn eu gosod.

Trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, mae llais y disgyblion yn datblygu'n eithriadol o dda ac yn effeithio'n sylweddol ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn ymweld â San Steffan yn flynyddol. Mae hyn yn dyfnhau eu dealltwriaeth o ddemocratiaeth a sut i weithredu ar ran, ac er budd, eraill yn arbennig o dda. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfrifoldeb hwn ac yn elwa o'r profiad. Enghraifft nodedig o weithredu yn effeithiol ar ran eu cyfoedion yw eu cyfraniad i wella'r ardal o gwmpas clwyd yr ysgol. O ganlyniad, maent wedi llwyddo i gydweithio gydag adain traffig gwasanaethau priffyrdd y sir i wella diogelwch o amgylch yr ysgol. Mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer y disgyblion sy'n beicio neu ddefnyddio sgwter i ddod i'r ysgol yn sylweddol.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol iawn o'u hawliau fel unigolion, yn unol â chanllawiau siarter hawliau plant y Cenhedloedd Unedig. Mae'r siarter yn amlwg ym mywyd yr ysgol gyda'r disgyblion yn gallu cysylltu llawer o'r gwaith maent yn ei wneud, er enghraifft hawliau plant mewn cyfnod o ryfel, â hawliau cyffredinol plant. O ganlyniad, mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth ardderchog o sut i weithredu fel dinesydd byd-eang.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i'r gymuned leol drwy amrywiaeth o weithgareddau, fel 'Gŵyl fawr Aberteifi' ac agoriad swyddogol y castell, ynghyd ac amrywiol weithgareddau codi arian. Mae'r disgyblion yn elwa o'u hymweliadau a chartrefi henoed yn yr ardal ac mae hyn yn help iddynt ddeall anghenion a theimladau pobl hŷn.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn iawn o fwyta'n iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol, gweithgareddau allgyrsiol a'r gweithgareddau a drefnir gan gyfoedion ar yr iard chwarae.

Mae canran presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf yn uwch na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n bodloni anghenion y disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi ymgorffori egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gadarn yn yr holl ddosbarthiadau. Mae hyn yn golygu bod y disgyblion yn cael profiadau dysgu ymarferol ac ysgogol sy'n cynnal eu diddordeb yn llwyddiannus. Mae'r profiadau addysgol gwerthfawr a chytbwys drwy'r ysgol yn cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Mae'r ysgol yn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn bwrpasol.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu ar draws y cwricwlwm nac yn estynedig. Mae darpariaeth TGCh yn cyfrannu at gyfoethogi gwaith y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae astudio gwaith artistiaid amlwg o Geredigion a cherddorion Cymreig yn cyfoethogi hyn yn arbennig o dda. O ganlyniad, mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a'r iaith Gymraeg yn gadarn ac yn plethu drwy bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae ystod eang o ymweliadau lleol a chenedlaethol, ymweliadau ymwelwyr a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yr Urdd yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn fuddiol. Enghraifft o hyn yw'r daith i ben yr Wyddfa gyfrannodd at ddatblygu eu dealltwriaeth o dirwedd amrywiol Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i'r cyngor eco gyfrannu'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o ailgylchu, arbed ynni a chynaliadwyedd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth yr holl ddisgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn ardderchog. Nodwedd arbennig o hyn yw'r ffocws clir a chyson ar hawliau'r plentyn ar draws y byd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cefnogi sawl elusen ryngwladol i gynorthwyo plant llai ffodus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymweld â gwledydd Ewropeaidd ac mae'r ysgol wedi cael cydnabyddiaeth a gwobr am ei gwaith rhyngwladol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol da ac maent yn cysylltu gwersi â dysgu blaenorol yn bwrpasol. Gan amlaf, maent yn cynllunio gwersi diddorol sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Yn y lleiafrif o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd creadigol er mwyn ymestyn medrau disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddatblygu medrau llafaredd trwy berfformiadau ar y llwyfannau dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw lefel yr her mewn llawer o ddosbarthiadau yn ymateb yn llawn i anghenion pob disgybl.

Mae'r perthynas ofalgar sydd yn bodoli rhwng staff a disgyblion yn sicrhau awyrgylch gwaith diogel sy'n galluogi disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Mae bron bob aelod o staff yn rheoli ymddygiad yn fedrus a chyda sensitifrwydd. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn barod i ddysgu.

Mae'r athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig ar waith y disgyblion yn drwyadl iawn. Maent yn rhoi sylwadau adeiladol i ddisgyblion ar sut i fireinio eu hymdrechion yn gysylltiedig â meini prawf llwyddiant y gwersi. Mae'r adborth rhwng yr athro a'r disgybl yn cael effaith bositif ar wella'u gwaith ac yn galluogi'r unigolyn i gyfrannu at osod ei dargedau personol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion hunanasesu ac asesu gwaith ei gilydd yn effeithiol. Mae'r holl brosesau hyn yn arwain at welliannau amlwg yng ngwaith y disgyblion.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r wybodaeth yn cael ei dadansoddi a'i defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw.

Mae adroddiadau blynyddol ysgrifenedig i rieni yn gynhwysfawr ac yn darparu darlun defnyddiol o safonau a chyrhaeddiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, ddymunol a gofalgar, sy'n rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion. Mae'n gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ffitrwydd allgyrsiol.

Mae'r staff yn adnabod anghenion lles y disgyblion yn arbennig o dda ac mae gan yr ysgol raglen effeithiol iawn o gefnogaeth i ddisgyblon bregus. Mae'r gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan y Gweithiwr Bugeiliol Disgyblion yn hynod effeithiol wrth ddatrys problemau ymddygiad ac emosiynol disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hunan-barch y disgyblion ac at eu hagwedd at eu gwaith a'u cyfraniad i fywyd yr ysgol.

Mae darpariaeth o ansawdd uchel iawn ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion, sy'n gwreiddio o waith yr ysgol gyfan ynglŷn â 'Hawliau'r Plentyn'. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn cymuned leol ac fel rhan o gymuned ehangach y byd. Mae datblygiad ysbrydol yn cael sylw priodol mewn sesiynau addoli ar y cyd a thrwy ymweliadau i'r capel a'r eglwys leol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau a gwasanaethau arbenigol i ddarparu cefnogaeth nerthol. Mae grwpiau ymyrraeth yn cael effaith fuddiol ar fedrau llythrennedd a rhifedd llawer o'r disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer llunio cynlluniau addysg unigol sy'n cynnwys y staff a llais y disgybl ble y bo'n addas. Mae'r cydlynydd yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion, staff, rhieni, asiantaethau a gwasanaethau allanol. O ganlyniad, mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniad llawer o ddisgyblion gan eu galluogi i oresgyn rhwystrau dysgu yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd arbennig o ofalgar a diogel i'r holl ddisgyblion, rhieni ac ymwelwyr. Mae pwyslais eithriadol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth gan greu ethos sydd yn meithrin gofal a goddefgarwch. Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol iawn ac mae'r staff yn gwerthfawrogi mewnbwn pob disgybl. Maent yn sicrhau mynediad cyflawn i holl weithgareddau'r ysgol. Nodwedd nodedig o hyn yw'r cyfraniad gwerthfawr a wneir drwy'r 'Caban Cŵl' sy'n darparu cefnogaeth maethu fuddiol iawn ar gyfer disgyblion penodol. O ganlyniad, nid oes achos o waharddiad penodol wedi codi, ac mae presenoldeb ac ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn.

Mae pwyslais rhagorol ar godi ymwybyddiaeth y disgyblion o hawliau'r plentyn yn unol â chanllawiau siarter hawliau plant y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn greiddiol i holl waith yr ysgol. Mae wedi ymledu'n llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol drwy gynllunio gofalus, arddangosfeydd a gwaith cynghorau disgyblion. Er enghraifft, mae'r gwaith yng nghyfnod allweddol 2 ar drychineb Aberfan yn sicrhau bod disgyblion yn hollol ymwybodol o hawl pob plentyn i fod yn ddiogel yn yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, drwy ddathlu diolchgarwch yn y capel lleol, mae disgyblion yn cysylltu'r gwaith elusennol o godi arian i 'Water Aid' gyda'r hawl i fwyd da a dŵr ac i weld meddyg, sydd yn y siarter.

Mae ystod eang o adnoddau yn y dosbarthiadau yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd eithriadol o bob gofod posibl yn yr adeilad i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol a symbylus ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, newidiwyd yr ardal i gadw cotiau yn ardal ddarllen ddychmygus.

Mae arddangosfeydd o safon uchel iawn yn gosod bri ar waith y disgyblion ac yn dathlu eu gorchestion a'u campweithiau. Esiampl nodedig o hyn yw'r gwaith celf o safon uchel sydd i'w weld ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r ardaloedd allanol i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r adeiladau yn lân ac yn raenus tu hwnt. Mae'r amgylchedd ffisegol a'r defnydd o adnoddau yn ymateb i anghenion y disgyblion yn effeithiol iawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn seiliedig ar godi safonau cyrhaeddiad ynghyd â chreu ethos lle mae lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith a bywyd yr ysgol. Mae'n adnabod pob disgybl yn dda iawn ac sicrhau bod gwaith yr ysgol yn datblygu unigolion hapus ac uchelgeisiol. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan yr uwch dîm rheoli. Ar y cyd, maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn ymysg staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Mae pob aelod staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae strwythurau rheoli'r ysgol yn gadarn iawn ac yn cefnogi'r staff i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Mae gan gyfarfodydd yr uwch dîm rheoli, staff ac adrannau, ffocws clir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae hyn yn sicrhau cysondeb mewn strategaethau ac yn arwain at welliannau amlwg yn y ddarpariaeth a safonau disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ffocws cryf ar ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o beth maent yn ei ddysgu a sut i lwyddo yn eu gwaith.

Un o gryfderau'r arweinyddiaeth yw'r ffordd maent yn sicrhau atebolrwydd i bob aelod staff drwy sicrhau cyfleoedd arwain effeithiol i'r holl athrawon. Defnyddiant systemau rheoli perfformiad yn fuddiol er mwyn gwella agweddau penodol o waith yr ysgol ac i ddatblygu staff yn broffesiynol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a pharatoi ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am ddata perfformiad a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella trwy adroddiadau'r pennaeth a chyflwyniadau gan arweinwyr. Mae dealltwriaeth ychydig o'r aelodau am ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyffredinol yn datblygu'n briodol trwy ymweliadau monitro. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfrannu'n ddigon strategol at y

broses hunanarfarnu ac nid oes ganddynt wybodaeth ddigon cadarn am gryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant er mwyn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigonol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a phriodol. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi gwreiddio'n gadarn ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata cyrhaeddiad, craffu ar waith, monitro gwersi a chywain barn staff a disgyblion. Fodd bynnag, nid yw barn rhieni yn cael ei hystyried yn ddigon ffurfiol fel rhan o weithgareddau'r broses hunanarfarnu.

Gan amlaf, mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r broses hunanarfarnu yn amlygu'n glir ansawdd y ddarpariaeth, er nid oes digon o ffocws bob tro ar arfarnu safonau disgyblion, yn enwedig wrth graffu ar lyfrau. Mae'r adroddiadau hunanarfarnu yn adnabod targedau perthnasol ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn ailymweld â'r rhain yn rheolaidd er mwyn mesur cynnydd. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, er enghraifft wrth wella medrau sillafu Saesneg disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn crynhoi'r dystiolaeth sy'n deillio o weithgareddau hunanarfarnu yn briodol. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod y rhan fwyaf o gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn cysylltu'r holl wybodaeth sy'n deillio o brosesau hunanarfarnu yn ddigon effeithiol â'r adroddiad hunanarfarnu. O ganlyniad, nid ydynt yn mynd i'r afael â phob agwedd sydd angen ei gwella yn amserol, fel ysgrifennu estynedig.

Mae cyswllt amlwg rhwng gweithgareddau hunanarfarnu a blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r camau gweithredu yn berthnasol ac yn cysylltu â meini prawf llwyddiant yn briodol. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r cynllun datblygu ysgol yn arf effeithiol i sicrhau gwelliant mewn safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gwaith ar wella lles ar gyfer disgyblion bregus sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn gyda rhieni a gofalwyr. Nodwedd effeithiol o hyn yw gwaith y 'Gweithiwr Bugeiliol Disgyblion' sy'n pontio perthynas yr ysgol gyda rhieni o'r cylch meithrin. Golyga hyn fod y disgyblion yn ymgartrefu'n llwyddiannus yn yr ysgol. Mae defnydd effeithiol o'r 'Clwb Cardis' yn meithrin cyswllt buddiol rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae hyn yn galluogi rhieni i fedru cefnogi eu plant yn well gyda'u medrau sylfaenol llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n fedrus gyda'r ysgol uwchradd i sicrhau trefniadau pontio effeithiol.  Mae cydweithio gwerthfawr ar brosiectau addysgol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd a gwyddoniaeth.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd eraill y clwstwr.  O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddeilliannau a lefelau disgwyliedig a chyraeddiadau'r disgyblion.

Yn rhinwedd ei rôl fel ysgol arloesi, mae'r ysgol yn cydweithio gyda phrifysgol i rannu arfer dda gyda myfyrwyr a mentoriaid o ysgolion eraill yn llwyddiannus.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn yr ysgol.

Mae cydweithio buddiol gydag amrediad o asiantaethau allanol sy'n ffocysu ar iechyd, perthnasoedd a chwnsela yn golygu bod yr ysgol yn ymateb yn fedrus i anghenion amrywiol ei disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu strwythur rheolaeth gwerthfawr iawn sy'n rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol.  Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o arbenigeddau staff i wireddu nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol yr ysgol yn llwyddiannus.  Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig i ddarparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb bron bob disgybl yn llwyddiannus.  Gwna defnydd effeithiol o'r cynorthwywyr dysgu er mwyn cefnogi'r dysgu ac i weithredu nifer o raglenni ymyrraeth buddiol.  Mae hyn yn cyfrannu'n dda at brofiadau dysgu disgyblion ac wrth wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles grwpiau penodol o ddisgyblion.  Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae staff yn defnyddio'r amser yn effeithiol i gynllunio'n bwrpasol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus o fewn rhwydweithiau dysgu, sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol.  Er enghraifft, mae'r cynlluniau mentora a chyd-arsylwi yn darparu cyfleoedd buddiol i athrawon gydweithio er mwyn gwella agweddau o'u harfer.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion.

Gwna arweinwyr defnydd buddiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn gwella lles a safonau disgyblion bregus.  Enghraifft effeithiol o hyn yw'r gwaith bugeiliol sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les ac ymddygiad grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd.  Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol ganran sylweddol iawn o arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi i bwrpas.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran safonau gwaith disgyblion.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672368 - YSGOL GYNRADD ABERTEIFI**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 417 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 40 | 46 | 41 | 54 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 95.0 | 89.1 | 87.8 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 2 | 9 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 88.9 | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 11.1 | * | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 38 | 37 | 41 | 54 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 89.2 | 90.2 | 90.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 15.8 | 35.1 | 26.8 | 20.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 46 | 41 | 54 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.5 | 91.3 | 90.2 | 90.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.5 | 28.3 | 39.0 | 25.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 46 | 41 | 54 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 95.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 60.0 | 56.5 | 73.2 | 53.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672368 - YSGOL GYNRADD ABERTEIFI**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 417 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 45 | 47 | 52 | 45 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 82.2 | 91.5 | 90.4 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 47 | 52 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 91.5 | 90.4 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 27.7 | 23.1 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 28 | 33 | 29 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.5 | 96.4 | 90.9 | 79.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.6 | 25.0 | 15.2 | 20.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 47 | 52 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.4 | 97.9 | 90.4 | 82.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.2 | 34.0 | 30.8 | 15.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 47 | 52 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 93.6 | 90.4 | 82.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 11.1 | 44.7 | 36.5 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 98 | 98 100% | 0 0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 96 98% | 2 2% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 98 | 95 97% | 3 3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 98 100% | 0 0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 95 97% | 3 3% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 96 98% | 2 2% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 98 | 98 100% | 0 0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 95 97% | 3 3% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 94 96% | 4 4% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 97 99% | 1 1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 82 84% | 16 16% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 95 97% | 3 3% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 26 | 22 | 3 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 12% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 24 | 1 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 92% | 4% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 24 | 1 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 92% | 4% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 26 | 20 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 77% | 19% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 26 | 6 | 17 | 1 | 1 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 23% | 65% | 4% | 4% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 21 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 15% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 17 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 31% | 4% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 26 | 9 | 11 | 4 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 35% | 42% | 15% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 20 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 77% | 19% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 17 | 8 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 65% | 31% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 26 | 18 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 69% | 27% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 25 | 15 | 7 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 60% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 26 | 15 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 58% | 38% | 4% | 0% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 26 | 21<br>81% | 4<br>15% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 26 | 13<br>50% | 7<br>27% | 2<br>8% | 0<br>0% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 15<br>58% | 10<br>38% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 25 | 11<br>44% | 7<br>28% | 1<br>4% | 0<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 26 | 15<br>58% | 9<br>35% | 1<br>4% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 20<br>77% | 5<br>19% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Llyr Jones | Arolygydd Tîm |
| Mr Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |
| Mrs Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Ms Nia Daly | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Donna Hanly (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.